# CYNGOR CYMUNED BETWS

## 2009 06 Mehefin Cofnodion

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor Cymuned yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar ddydd Mercher y 10fed o Fehefin 2009 am 6.40 yr hwyr.

YN BRESENNOL: Cynghorwr Betsan Jones (Cadeiryddes), Y Cynghorwyr Arnallt James, Carwyn James, Anthony Richards, Maldwyn John, Richard Howell, Annette Price, Loreen Lewis, Catherine Smith, June Gunter, Anne Sizmur a'r Cynghorwr Sir Audrey Jones.

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwr Menna Roberts.

PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn danfon carden gwellan fuan I Gynghorwr Menna Roberts.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Fe ddatganodd y Cynghorwr Annette Price buddiant heb fod yn ariannol yn Ganolfan Gynghori.
Fe ddatganodd y Cynghorwr Loreen Lewis buddiant heb fod yn ariannol yn gais cynllunio rhif E/21142.

1. DARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 13eg o FAI 2009.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Catherine Smith ac eiliodd y Cynghorwr Arnallt James fod cofnodion cyfarfod y 13eg o Fai 2009 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Gadeiryddes.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Tir ger Heol Y Felin, Betws.
Fe ddywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi siarad gyda'r Cyfreithiwr sydd wedi cadarnhau bod y Clwb Rygbi wedi rhoi eu gweithred i'w Cyfreithwyr. Mae ein Cyfreithiwr wedi danfon cais i'r gofrestrfa tir. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn cysylltu gyda Chyfreithwyr Llys Cennen i gael eu hadroddiad ynglyn â'r mater hon.

2.2 Bwrdd Hysbysu'r Cyngor Cymuned.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi danfon logo'r Cyngor Cymuned at Atech Graffig ac Arwyddion, a fydd y bwrdd yn barod i gael ei gasglu yn tua phythefnos. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

2.3 Rhodd - Ysgol Gynradd y Betws.
Dywedodd y Cynghorwr Anthony Richards wrth y Cynghorwyr nid oes gan y Guardian ffotograffydd. Felly fydd y Cynghorwr Anthony Richards yn mynd i gymrid llun ac yn ei ddanfon at bapur dyddiol y Guardian, newyddiadur Caerfyrddin, Glo Man ar gylchgrawn y Gymuned. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod nhw'n cyfarfod dydd Llun am 2.30pm yn Ysgol Gynradd y Betws.

2.4 Meinciau am Heol Pentwyn a Treforis.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi archebu dwy fainc (un am Heol Pentwyn ac un am Treforis). PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn erlid y mater hwn.

2.5 Golau Solar am Barc y Betws - Gardd Synhwyro a Choffa.

Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr bod hi wedi siarad gyda 'Sunset Solar' ond yn anffodus nid maen nhw'n gallu cyflenwi'r golau solar addas. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr bod y Clerc yn cysylltu gyda Gerwyn Thomas o Gyngor Sir Caerfyrddin i weld os gall ef roi enw cwmnïoedd sydd yn cyflenwi golau solar.

2.6 Goleuadau Tymhorol/Croeso am Gymuned y Betws.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr bod hi'n aros am ddyluniadau cael eu danfon iddi. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

2.7 Cyfarfod Diogelwch Y Briffordd Highway.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod cyfarfod wedi cael ei drefnu gyda Mr McEvoy o Gyngor Sir Caerfyrddin am Ddydd Gwener y 12fed o Fehefin 2009 am 11.45am. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

2.8 Bocs Blodau'r Cyngor Cymuned.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi ysgrifennu at Mr Lewis ond nid yw hi wedi derbyn ymateb hyd yn hyn. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn erlid y mater hwn.

2.9 Llwybr Troed 3/14 sy'n arweinio o Waunddwfn i Heol Wern Olau.
Adroddodd y Cynghorwr Arnallt James nid yw rhan uchaf o lwybr troed 3/14 sy'n arweinio o Waunddwfn i Heol Wern Olau wedi cael ei glirio. PENDERFYNWYD Y Cynghorwyr fod y Clerc yn cysylltu gyda Gary Carlsen/Caroline Furguson o Gyngor Sir Caerfyrddin.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Cydnabuwyd a nodwyd y canlynol.
•Llywodraeth Cynulliad Cymru - draft rheolaeth llif a dwr.
•Cyngor Sir Caerfyrddin – Gorchymyn Dargyfeiriad Llwybr Troed 2009 (llwybr troed 68/13, 51/111a, 51/110, 51/112, Glyn Y Meirch, Pontamman)
•Un Llais i Gymru – Agenda Pwyllgor Ardal Sir Gaerfyrddin.
•Awdurdod Tan Ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru - Cynllun Strategol 2010/2015 a Chynllun Gweithredu Blynyddol Drafft 2010/2011.
•Grwp Cynghorau Lleol Aman - Agenda - Rhoddwyd i Gynghorwr Catherine Smith.
•Cynllun Datblygiad Lleol Sir Gaerfyrddin - i gael eu pasio amgylch y Cynghorwyr.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Roedd Cyngor Cymuned y Betws wedi gwrthwynebu'r ceisiai cynllunio canlynol:-
E/21113 - Amlinelli gynllunio am dy ger Dan Yr Allt, Heol y Cyrnol, Betws (7-2009/10).
E/21112 - Adeiladu dau dy, tir ger Heol y Cyrnol, Betws (6-2009/10).
E/21142 – Creu mynediad cerbydol a rhodfa i Waun Herod, Betws (8-2009/10).

4.1 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi caniataid i'r ceisiai cynllunio canlynol:-
E/20903 - Ailosodiad estyniad fframiau pren i'r llawr cyntaf gyda thy gwydr ger, 5 Stryd y Parc, Betws (4-2009/10).
E/20817 - Adeiladu estyniad dau lawr i ochr y ty ger 41 Heol y Betws, Betws (1-2009/10) - Roedd gan y Cynghorwyr pryderon ynglyn â lleoliad y goedwig ywen yn y cynlluniau gwreiddiol.

E/20854 - Newidiad i le troi i ffordd bengaead tir ger Parc Bwtrimawr, Betws (3-2009/10).

5. CYFRIFON.
5.1 Archwiliad Mewnol.
Dywedodd y Clerc bod Mr Lyn Llewellyn wedi cwblhau'r Archwiliad Mewnol ar gyfrifon y Cyngor Cymuned am y flwyddyn yn gorffen ar y 31ain o Fawrth 2009 ac nid oedd unrhyw bwynt i'w godi. Fe lofnodwyd y Gadeiryddes y cyfriflyfr gwaith. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

5.2 Archwiliad Allanol.
Dywedodd y Clerc fod yr Archwiliad Allanol wedi cael ei setio am y 4ydd o fis Medi. Fe lofnodwyd y Gadeiryddes y ffurflen flynyddol. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

5.3 Taliadau.
1.Mr Lyn Llewellyn (Archwiliad Mewnol) £60.00
2.Treth Incwm y Clerc £1186.59
3.Cyflog a Lwfans y Clerc £935.95 Cyfanswm £1182.54
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr i dalu'r bil uchod.

5.4 Incwm.
1.Tollau Tramor a Chartref EM (ad-daliad TAW) £520.80
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PCSO Sharee Treharne y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd PCSO Sharee Treharne fod 13 troseddau i'w nodi yn ardal y Betws yn ystod mis Mai. Hyd yn hyn mae 9 wedi cael eu datgelu.

Adroddodd y Cynghorwyr are yr isod:-
•Fe roddodd y Cynghorwyr ddiolch i'r Heddlu am ymweld â Maesyberllan a Treforis.
•Nodwyd y Cynghorwyr eu bod nhw wedi derbyn sawl cwyn wrth breswylwyr o Barc Coetir; mae pobl sy'n byw yn Treforis yn mynd trwy gerddi'r tau ym Mharc Coetir yn lle defnyddio'r hewl.
•Mae plant yn defnyddio eu beiciau yn y nos ond nid oes golau ganddynt.
•Mae'r Cynghorwyr yn pryderu oherwydd bod gwyliau'r haf yn agosáu ac mae llawer o blant anwybyddid i'r Rheolau'r Ffordd Fawr.
•Roedd y Cynghorwyr y pryderu un waith eto oherwydd bod gyrrwr y tractor yn parcio gyda'u tractor a'u trelar ar y bont sy'n rhwystro'r traffig.
•Mae'r Cynghorwyr wedi derbyn cwynion ynglyn â cherbydau rheolaeth bell gyda pheiriant petrol yn cael ei ddefnyddion ym Mharc y Betws.
•Mae plant wedi bod yn gwersyllu ym Mharc y Betws ac wedi gadael sbwriel ar hyd y lle.

Fe gadarnhaodd PCSO Sharee Treharne fydd hi'n dweud wrth PC Kevin Jones am yr uchod. Rhoddodd y Gadeiryddes a'r Cynghorwyr ddiolch i PCSO Sharee Treharne am ei adroddiad.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Nid oedd gan Gynghorwr Sir Audrey Jones unrhyw adroddiadau.

•Mae pont newydd yn mynd i gael ei lleoli rhwng Waungron a Pharc Penrhiw.
•Mae'r hewl rhwng Heol Maescware a Waungron yn mynd i gael arwyneb newydd.
•Mae'r graffiti ar y sleid yn lle chwarae Heol y Felin wedi cael ei symud.
•Mae'r Ffarmwr wedi cytuno rhoi tir fel gall y llwybr troed sy'n arwain rhwng Parc Penrhiw a Treforis cael ei leoli.
•Mae preswylwyr ym Mharc Penrhiw wedi gofyn am gysgod bws, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi bod i'r ardal ac mae'r Cynghorwr Sir yn aros am ymateb.
•Nid oes pafin rhwng Parc Penrhiw a Treforis, adroddodd y Cynghorwr Sir fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn mynd i roi pafin yno.
•Roedd y Cynghorwr Sir wedi bod yn bresennol yn Seminar addysg yn ddiweddar ac fe adroddodd fod disgyblion blwyddyn 10 yn Ysgolion Uwchradd yn mynd i gael yr hawl I 30 gwahanol gyrsiau yn dechrau ym mis Medi.
•Roedd y Cynghorwr Sir wedi bod yn bresennol yn cyfarfod ECG - pwnc y cyfarfod oedd sut oedd pobl sy'n gwella o fod yn alcoholig a defnyddion gyffuriau yn ymdopi yn y gymuned. Fydd y cyfarfod nesaf yn dau fis.

Gofynnodd y Cynghorwr Anne Sizmur beth sy'n digwydd ynglyn â chlybiau cinio bach yn y Sir? Nid oedd y Cynghorwr Sir yn gwybod.

Gofynnodd y Cynghorwr Anthony Richard beth sy'n digwydd ynglyn â chyfuno Ysgolion Uwchradd. Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur bod ymchwiliad cyhoeddus yn fis Hydref. Nid oedd y Cynghorwr Sir yn gwybod.

Roedd y Cynghorwr Annette Price yn pryderu ynglyn â llif ar Heol Maescware ac eisiau gwybod pryd fydd y gwaith yn dechrau. Fe gadarnheuodd y Cynghorwr Sir Audrey Jones nid yw hi'n gwybod, mae'r cynllun yn mynd i gosti tua £200,000. Fydd y Cynghorwr Sir Audrey Jones yn edrych mewn i'r mater hon.

Darllenodd y Clerc ymateb a dderbyniwyd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â chyflwr yr hewl ger Heol y Cyrnol. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ymateb I Malcolm Davies I ddweud wrtho pan fod tywydd gwael mae cyflwr yr hewl ar Heol y Cyrnol yn wael iawn ac yn beryglus.

8. ADRODDIADAU.
8.1 Canolfan Gynghori.
Roedd y Cynghorwr Annettte Price wedi diweddaru'r Cynghorwyr ynglyn ag achos llys y Ganolfan Gynghori. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

8.2 Betws yn ei Blodau.
Dywedodd y Cynghorwr Loreen Lewis ei fod yn rhy hwyr i drefnu Betws yn ei Blodau am y flwyddyn hon. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr i ohirio tan flwyddyn nesaf. Y Clerc I roi hyn ar Agenda Cyfarfod mis Ebrill.

8.3 Lle Chwarae Treforis a Heol Y Felin.
Adroddodd y Cynghorwr Annette Price fod y cynlluniau am le chwarae Treforis a Heol Y Felin wedi costio tua £1,000 ond nid oedd rhaid I Gyngor Cymuned y Betws talu am y cynlluniau. Adroddodd nid yw lle chwarae Heol Y Felin yn mynd i allu derbyn cronfa, ond nid yw hi'n gwybod am le chwarae Treforis. Mae hi'n edrych mewn i'r posibilrwydd o gael llwybr troed o Barc Penrhiw i Treforis. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

9. UNRHYW FATER ARALL.
9.1 Ysgol Gynradd y Betws.
Roedd y Cynghorwr Anne Sizmur wedi adrodd fod crac enfawr wedi ymddangos yn lle chwarae Ysgol y Betws. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi ffens ddiogel amgylch yr ardal. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

Gorffennodd y Cyfarfod at 9.45 yr hwyr.